Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

25/06/2026

Annwyl Andrew Powles

## Ymweliad Estynedig ACALl: Mehefin 2026

Ar 15 ac 16 Mehefin 2026, cynhaliodd Alan Edwards AEF a thîm o AEF ymweliad estynedig arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol, a ganolbwyntiodd ar eich dulliau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynhwysiant a'ch dulliau o wella presenoldeb.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gyfarfod â chi a'r Cyfarwyddwr Strategol dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
- Cyfarfod ag uwch arweinwyr sy'n arwain ar y ddau faes ffocws
- Cyfarfod ag ystod o swyddogion sy'n arwain ar agweddau ar y ddau faes ffocws
- Cyfarfod ag ystod o benaethiaid ac arweinwyr eraill o ysgolion a lleoliadau
- Ystyried ystod o ddogfennau a ddarparwyd gennych chi a'ch timau

Gobeithiwn fod yr ymweliad hwn wedi bod yn ddefnyddiol i chi a'ch tîm gwasanaethau addysg. Isod, ceir crynodeb o'n canfyddiadau.

## Maes ffocws 1: Dulliau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chynhwysiant

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed am y camau rydych wedi'u cymryd i gryfhau'r arweinyddiaeth strategol ar gyfer ADY a chynhwysiant. Dywedodd arweinwyr wrthym sut maent wedi sefydlu gweledigaeth glir a chytûn ar gyfer ADY, wedi cryfhau trefniadau llywodraethu ac wedi cynnal ffocws cryf ar wella deilliannau i blant a phobl ifanc. Dywedodd swyddogion ac arweinwyr ysgolion fod hyn wedi helpu i greu ymrwymiad ar y cyd i gynhwysiant ar draws gwasanaethau, lleoliadau ac ysgolion.

Mae arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i gryfhau perthnasoedd â phartneriaid. Dywedodd arweinwyr ysgolion wrthym fod hyn wedi helpu i wella cydweithio ag ysgolion, lleoliadau a phartneriaid rhanbarthol. Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi cyfleoedd i lywio datblygiadau, fel trefniadau ariannu, prosesau lleoli a rhoi diwygiadau ADY ar waith trwy ystod o grwpiau. Roeddent hefyd yn gadarnhaol ynghylch hygyrchedd, arbenigedd ac ymatebolrwydd y tîm ADY, gan werthfawrogi'r cymorth, her a'r arweiniad o ansawdd uchel y maent yn eu cynnig.

Roedd yn ddiddorol clywed sut mae swyddogion wedi mynd ati i gryfhau dull yr awdurdod lleol o ymdrin â phrosesau statudol ar gyfer ADY. Mae hyn wedi cynnwys datblygu llwybrau atgyfeirio cliriach, meini prawf mynediad ac ymadael cadarn, trefniadau gwell ar gyfer lleoli, a dulliau mwy cyson ar gyfer cynlluniau datblygu unigol (CDUau). Dywedodd ysgolion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r arlwy dysgu proffesiynol ar gyfer ADY a'u bod yn teimlo ei fod yn helpu i gryfhau eu gallu i fodloni anghenion eu disgyblion. Roedd hefyd yn ddefnyddiol trafod sut rydych wedi gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth o fewn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a'r UCD. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod disgyblion yn y lleoliadau hyn yn gallu manteisio ar ystod ehangach o lwybrau a threfniadau cymorth cryfach.

### Cwestiynau i'w hystyried:

- Sut bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o addysgu cynhwysol o ansawdd uchel ar draws lleoliadau ac ysgolion?
- Sut bydd yr awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r angen o ran galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol?

## Maes ffocws 2: Gwella presenoldeb

Yn ein trafodaethau, roedd yn amlwg bod yr awdurdod lleol yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i wella presenoldeb. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ategu gan ffocws cryf yr awdurdod lleol ar 'egwyddorion Marmot', sydd â'r nod o fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau fel y gall pob plentyn ac unigolyn ifanc yn Nhorfaen ffynnu.

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae swyddogion yn gwerthuso effaith eu gwaith. Roedd yn amlwg bod y Cyfarwyddwr Addysg a'i dîm wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus ag arweinwyr ysgolion. Dywedodd ysgolion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth y mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu a rhoesant enghreifftiau i ni o sut mae'r gwaith hwn wedi eu helpu i sicrhau gwelliannau ym mhresenoldeb disgyblion. Mae swyddogion yn cydweithio'n rheolaidd â'r gwasanaeth gwella ysgolion i gryfhau'r agwedd hon ar eu gwaith.

Roedd yn ddiddorol trafod sut mae swyddogion yn defnyddio ystod eang o ddata i fonitro presenoldeb yr awdurdod lleol ac ysgolion. Mae hyn yn cynnwys ystyried presenoldeb

gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn dda i dargedu cymorth a her i ysgolion. Mae timau fel y Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio'n rhagweithiol ag ysgolion ac yn cadw ffocws clir ar leihau unrhyw rwystrau o ran presenoldeb gwael. Roedd yn gadarnhaol clywed sut mae'r awdurdod lleol wedi parhau i gryfhau'r perthnasoedd drwyddi draw. Dywedodd swyddogion wrthym fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu gwaith ac wedi'u helpu i ddeall y cyfraniadau y mae timau gwahanol yn eu gwneud i wella agweddau ar waith yr awdurdod, fel presenoldeb. Mae hyn wedi helpu i gryfhau cydweithio rhwng timau, ynghyd â chyfranogiad cynyddol swyddogion gwahanol mewn cyfarfodydd estynedig timau arweinyddiaeth.

Bu'r awdurdod lleol yn datblygu ei ddull o wella presenoldeb ar draws clystyrau o ysgolion. Roedd arweinwyr ysgolion yn gadarnhaol ynghylch y dull hwn ac yn gwerthfawrogi'r Swyddog Lles Addysg yn gweithio o fewn clystyrau. Teimlant ei fod wedi helpu i leihau dyblygu gwaith a datblygu dull cytûn o wella presenoldeb ar draws yr awdurdod lleol.

### Cwestiynau i'w hystyried:

- A fyddai darparu'r data presenoldeb cymharol ar gyfer gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn eich datganiad data misol i ysgolion yn cryfhau eich dull ymhellach?

Diolch yn fawr am hwyluso'r ymweliad ac edrychaf ymlaen at drafod y datblygiadau yn y ddau faes ffocws gyda chi a'r cydweithwyr yn fy ymweliadau cyswllt yn y dyfodol.

Yn gywir

*Alan Edwards*

**Alan Edwards AEF**

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).